# Astudiaeth Achos Cyflogwr sydd wedi Ymrwymo

Terry Edmunds
**Rheolwr Pobl a Doniau**

Cwmni ymgynghori peirianneg a phartner cyflwyno gwasanaethau yn y Deyrnas Unedig yw Espanaro. Rydyn ni'n arbenigo mewn peirianneg systemau, peirianneg meddalwedd ac integreiddio systemau yn y sector Amddiffyn. Mae ein tîm ymrwymedig yn cynnwys 10 gweithiwr o bell ar hyn o bryd.

**Pam wnaethoch chi lofnodi'r addewid?**

Mae craidd ein cwmni'n cynnwys unigolion o gefndiroedd milwrol, ac mae cyfran sylweddol o'n gweithlu yn cynnwys cyn-filwyr a milwyr wrth gefn ar hyn o bryd. O ystyried eu profiadau gwahanol yn ystod eu dyletswyddau gweithredol, mae rhoi blaenoriaeth i iechyd meddwl yn dod yn rhan naturiol o'n gwerthoedd ers dechau'r cwmni.

Wrth gydnabod y trafferthion penodol y mae gweithio o bell yn eu cyflwyno, rydyn ni'n cydnabod bod rhwystrau unigryw sy'n gysylltiedig â gweithio gartref yn dod i ran gweithwyr, gan gynnwys ffiniau niwlog rhwng gwaith a bywyd personol a'r potensial i deimlo'n unig. Wrth ystyried hyn, rydym wedi ymrwymo i fynd i'r afael â'r heriau hyn mewn ffordd ragweithiol drwy roi blaenoriaeth i iechyd meddwl a llesiant cyffredinol fel ffocws pryder pwysig, a dyna pam rydyn ni wedi llofnodi addewid Amser i Newid Cymru.

**Sut fyddwch yn hyrwyddo ymwybyddiaeth o iechyd meddwl yn eich sefydliad?**

Yn Espanaro, rydyn ni o'r farn nad blaenoriaeth yn unig yw meithrin amgylchedd gwaith cefnogol ac iach ond mae'n agwedd hollbwysig ar ddiwylliant ein cwmni.

Ein prif amcan oedd cryfhau ymwybyddiaeth a lleihau'r stigma sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl yn y cwmni. Rydyn ni'n annog sgyrsiau am iechyd meddwl drwy amgylchedd sy'n meithrin ymddiriedaeth a natur agos atoch. Er mwyn hwyluso trafodaethau cyfrinachol a all effeithio ar waith gweithwyr, rydyn ni wedi penodi personél adnoddau dynol ymroddedig i fod yn bwynt cyswllt cychwynnol.

Mae Espanaro wedi ymrwymo i sicrhau bod cymorth iechyd meddwl ar gael yn hawdd i bob gweithiwr. Drwy roi Rhaglen Cymorth i Weithwyr ar waith, rydyn ni'n cynnig therapi cyfrinachol gan therapydd trydydd parti (Richard S Moore), sy'n cael ei ddarparu drwy alwadau fideo a sesiynau grŵp. Gall gweithwyr drefnu'r sesiynau hyn mewn ffordd gyfleus a chyfrinachol drwy ddolen bwrpasol sydd wedi'i darparu gan y therapydd. Wrth gydnabod pwysigrwydd ymestyn cymorth y tu hwnt i'r gweithle, mae'r sesiynau hyn nawr ar gael i aelodau uniongyrchol o deuluoedd pob gweithiwr. Mae ein therapydd mewnol yn defnyddio dull therapi holistaidd, sy'n cynnwys technegau fel myfyrdod, gwaith anadlu ac iachau gyda sain, i enwi dim ond rhai.

Er mwyn meithrin ymdeimlad o gymuned a mynd i'r afael â phryderon penodol, rydyn ni wedi trefnu sesiwn grŵp misol ar ddydd Gwener olaf bob mis gyda'r therapydd. Fe fydd y sesiwn hon yn canolbwyntio ar bynciau amrywiol, gyda phwyslais penodol ar straen, gorbryder ac iselder. Mae hyn yn cynnig cyfle i adeiladu tîm, ond mae hefyd yn creu amgylchedd agored a chefnogol i unigolion drafod eu profiadau.

Er gwaethaf gweithio o bell, rydyn ni'n gwneud ein gorau i feithrin ymdeimlad o gymuned a chysylltiad ymhlith ein gweithwyr. Rydyn ni hefyd yn defnyddio ein cyfarfodydd corfforol chwarterol fel gweithgareddau adeiladu tîm i annog rhyngweithio cymdeithasol ac i greu rhwydwaith cefnogol.

Gan ein bod ni'n deall pa mor bwysig y cynnal cydbwysedd iach rhwng gwaith a bywyd, rydyn ni wedi rhoi polisïau gwaith hyblyg ar waith. Mae gweithwyr yn cael eu hannog i gymryd egwyl yn aml, rheoli eu hamserlenni yn unol â'u hanghenion ac ymarfer hunanofal. Yn ogystal, rydyn ni'n pwysleisio pwysigrwydd datgysylltu o'r gwaith ar ôl oriau er mwyn atal blinder a chynnal llesiant cyffredinol.

**Beth yw'r camau hirdymor y byddwch chi'n eu rhoi ar waith i alluogi amgylchedd lles meddyliol cadarnhaol yn eich gweithle?**

Wrth symud ymlaen, rydyn ni'n rhagweld gwaith ehangu sylweddol a fydd yn gofyn am fenter recriwtio grymus. Rydyn ni eisoes wedi llunio cynllun sefydlu, sy'n cael ei atgyfnerthu gan ymrwymiad wedi'i lofnodi gan y Prif Swyddog Gweithredol i lesiant gweithwyr, a hynny trwy addewid Amser i Newid Cymru. Mae'r ymrwymiad hwn yn tanlinellu ein hymroddiad i feithrin amgylchedd gwaith meddyliol iach. Fel rhan annatod o'r cynllun sefydlu, rydyn ni'n bwriadu meithrin ffordd o feddwl ymhlith recriwtiaid newydd sy'n rhoi blaenoriaeth i iechyd meddwl yn syth o'r dechrau.

Rydyn ni wedi cymryd mantais ar lwyfannau cyfryngau cymdeithasol i rannu mentrau ein cwmni sy'n cefnogi'r achos hwn.  Ein nod yw creu ymwybyddiaeth, cychwyn sgyrsiau ac annog sefydliadau eraill i ymuno â ni wrth roi blaenoriaeth i iechyd meddwl a gweithio tuag at ddileu'r stigma yn ei gylch.

Yn y dyfodol, rydyn ni'n dyheu i gydweithredu mewn ffordd weithredol gyda busnesau, gan rannu ein straeon llwyddiant er mwyn eu hannog i roi blaenoriaeth i iechyd meddwl. Rydyn ni o'r farn y gall ein sefydliad ysbrydoli busnesau i gydnabod yr effaith sylweddol y gall canolbwyntio ar iechyd meddwl ei gael ar gynhyrchiant cyffredinol.

Byddwn yn casglu adborth gan weithwyr yn rheolaidd drwy arolygon a sianeli dienw er mwyn asesu effeithiolrwydd ein mentrau. Ar sail y cipolygon hyn, byddwn yn mynd ati'n barhaus i fireinio a gwella ein strategaethau er mwyn diwallu anghenion sy'n datblygu ein gweithlu o bell.

Drwy roi blaenoriaeth i iechyd meddwl a chwalu'r stigma yn ei gylch, ein nod yw creu gweithle lle y mae pob gweithiwr yn teimlo ei fod yn cael ei werthfawrogi, ei gefnogi a'i rymuso i ffynnu ar lefel bersonol a phroffesiynol.